# ADRODDIAD BLYNYDDOL OFFTHALMIG CYFFREDINOL CYMRU 2024/25

Is-adran Gwasanaethau Gofal Sylfaenol a Chymunedol

*Contractio Gofal Sylfaenol*

# Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru 2024/25

## Cyflwyniad

Mae Cyfarwyddiadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru) (Cymru) (Rhif 2) 2024 yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd gwblhau adroddiad blynyddol er mwyn monitro Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru (WGOS) 1-5.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am ddarpariaeth Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol Cymru ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn 2024/25 a bydd yn rhoi manylion ynglŷn â'r gweithlu, effeithiolrwydd, cyllid a chyfathrebu.

Bydd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at unrhyw fylchau yn y gwasanaethau a ddarperir a'r cynlluniau i fynd i'r afael i gau'r bylchau hyn er mwyn sicrhau gwasanaeth teg, yn nes at y cartref, i bob claf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

## 1. Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru

Daeth rheoliadau newydd y GIG (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023, sy'n llywodraethu WGOS 1 a WGOS 2, i rym ar 20 Hydref 2023. Mae'r rheoliadau a'r cyfarwyddiadau deddfwriaethol newydd yn disodli holl gyfarwyddiadau blaenorol y Gwasanaeth Offthalmig Cyffredinol ar gyfer gwasanaethau optometreg gan gynnwys holl gyfarwyddiadau Gwasanaeth Gofal Llygaid Cymru, er enghraifft, Gwasanaeth Archwiliadau Gofal Llygaid Cymru a Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru.

Ym mis Mawrth 2025, roedd 54 o bractisau optometreg a 5 darparwr gofal cartref yn darparu gwasanaethau WGOS 1 a 2. Roedd pob un ohonynt ar gael ar gyfer apwyntiadau brys a hanfodol ac yn gallu cynnig profion golwg arferol i gleifion. Mae practisau'n parhau i flaenoriaethu a threfnu apwyntiadau cleifion yn seiliedig ar angen clinigol a'r symptomau a gyflwynir, ynghyd â'r risg o niwed i'r golwg neu o golli golwg. Roedd un darparwr cartref a oedd yn darparu gwasanaeth WGOS 3 yn unig.

O'r 54 o bractisau a 6 darparwr gofal cartref ar draws y Bwrdd Iechyd yn 2024/25, roedd gan 11 gytundebau gwasanaeth symudol gyda'r Bwrdd Iechyd, roedd 35 o bractisau yn darparu WGOS 3 ac roedd 23 o ymarferwyr/23 o bractisau yn gymwys i ddarparu WGOS 5.

Ar 1 Tachwedd 2024, lansiwyd gwasanaeth WGOS 4 yn y Bwrdd Iechyd. Yn 2024/25, roedd 22 practis yn darparu Gwasanaeth Retina Meddygol, 11 practis yn darparu gwasanaeth Glawcoma a chomisiynwyd 2 bractis i ddarparu monitro Hydroxychloroquine.

Comisiynodd y Bwrdd Iechyd hefyd 5 Canolfan Triniaeth Ddiagnostig Offthalmig i ddarparu gofal i gleifion â Glawcoma a oedd yn addas i gael eu trin mewn lleoliadau Gofal Sylfaenol, â Gofal Eilaidd yn adolygu cyfeiriadau. Roedd un o'r Canolfannau Triniaeth Ddiagnostig Offthalmig yng Nghasnewydd hefyd yn darparu gwasanaeth Dirywiad Macwlaidd Gwlyb sy'n Gysylltiedig ag Oedran (AMD Gwlyb). Yn unol â chynllun gweithredu WGOS 4, daeth y Ganolfan Triniaeth Ddiagnostig Offthalmig/Gwasanaeth AMD Gwlyb i ben ar 31 Mawrth 2025 gyda phob darparwr yn trosglwyddo i ddarparu WGOS 4.

## 2. Darpariaeth Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y practisau, fesul Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth a oedd yn darparu pob gwasanaeth WGOS ym mis Mawrth 2025;

| | WGOS 1 & 2 | WGOS 3 | WGOS 4- Medical Retina | WGOS 4- Glaucoma | WGOS 4- HCQ | WGOS 5 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent East | 2 | 2 | 2 | 1 | - | 2 |
| Blaenau Gwent West | 4 | 3 | 2 | - | - | 3 |
| Caerphilly East | 9 | 7 | 3 | 2 | - | 2 |
| Caerphilly North | 3 | 3 | 3 | 1 | - | 2 |
| Caerphilly South | 5 | 4 | 3 | 2 | - | 2 |
| Monmouthshire North | 8 | 5 | 2 | 2 | - | 2 |
| Monmouthshire South | 3 | 1 | 1 | - | 1 | 1 |
| Newport East | 5 | 2 | 2 | - | - | 2 |
| Newport West | 8 | 4 | 4 | 2 | 1 | 5 |
| Torfaen North | 3 | 2 | 2 | 1 | - | 1 |
| Torfaen South | 4 | 1 | - | - | - | |
| Domiciliary | 5 | 1 | - | - | - | 1 |

Yn 2024/25 caeodd practis yng Ngogledd Caerffili, a chaeodd Contractwr a oedd â phractisau yn Nwyrain Casnewydd a Gogledd Sir Fynwy. Unwyd y ddau bractis, gan agor mewn adeilad newydd yng Ngorllewin Casnewydd ac agorwyd practis newydd yn Nwyrain Casnewydd hefyd.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion ynglŷn â'r gweithlu a nifer yr ymarferwyr sy'n darparu gwasanaethau WGOS 4 a 5 fesul Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth;

| | WGOS 4- Medical Retina | WGOS 4- Glaucoma | WGOS 4-HCQ | WGOS 5 |
|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent East | 3 | 1 | - | 2 |
| Blaenau Gwent West | 3 | - | - | 3 |
| Caerphilly East | 6 | 2 | - | 2 |
| Caerphilly North | 5 | 1 | - | 2 |
| Caerphilly South | 6 | 2 | - | 2 |
| Monmouthshire North | 5 | 2 | - | 4 |
| Monmouthshire South | 3 | - | 3 | 2 |
| Newport East | 3 | - | - | 3 |
| Newport West | 6 | 2 | 1 | 6 |
| Torfaen North | 3 | 1 | - | 1 |
| Torfaen South | - | - | - | - |
| Domiciliary | - | - | - | 1 |

**Adeg cyhoeddi, nid oedd data gweithlu Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru 1 a 2 ar gael.*


## 3. Asesiadau Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru


**WGOS 1-3**


O dan y rheoliadau newydd, mae WGOS 1-3 wedi'u categoreiddio fel a ganlyn;

- WGOS 1: Archwiliadau llygaid a chynllun rheoli cleifion.
- WGOS 2: Yn cynnwys tri band:
  - Band 1 - Gofal llygaid acíwt a chyfeiriadau ar gyfer archwiliadau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill.
  - Band 2 - Archwiliadau pellach yn dilyn Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru 1 i hysbysu neu atal cyfeirio.
  - Band 3 - Archwiliadau dilynol i Wasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru 2, Band 1 ac Asesiadau ar ôl Llawdriniaeth Cataract.
- WGOS 3: Golwg Gwan a Thystysgrif Nam ar y Golwg
  - Asesiad ar gyfer y rhai â golwg gwan a darparu cymhorthion ar gyfer golwg gwan lle bo'n briodol, yn ogystal â rhoi cymorth cyfannol i'r claf a chymorth adsefydlu.
  - Ardystio nam ar y golwg lle mai Dirywiad Macwlaidd Sych sy'n Gysylltiedig ag Oedran yw’r prif achos dros golli’r golwg

Mae'r graffiau isod yn rhoi manylion ynglŷn â nifer yr hawliadau a broseswyd ar gyfer Gwasanaethau WGOS Lefel 1 -3 rhwng Ebrill 24 a Mawrth 25;







## WGOS 4

Mae gwasanaethau WGOS 4 yn gweld cleifion a fyddai yn flaenorol, wedi cael eu cyfeirio at y Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbyty, neu y byddai eu cyflwr wedi ei reoli ganddynt. Bydd y cleifion hynny nawr, yn aros mewn lleoliadau gofal sylfaenol i gael ei hasesu'n fanylach fel rhan o lwybr monitro neu fireinio cyfeirio y cytunwyd arno ar gyfer cleifion:

- â chyflyrau retina meddygol neu dan amheuaeth o hynny
- â glawcoma neu orbwysedd ociwlar neu dan amheuaeth o hynny; a
- sydd mewn perygl o gael retinopathi oherwydd eu bod yn cymryd hydroxychloroquine neu chloroquine

Lansiwyd gwasanaeth Hidlo Cyfeiriadau WGOS 4 yn y Bwrdd Iechyd ar 1 Tachwedd 2024. Bydd gwasanaeth Monitro WGOS 4 yn cael ei lansio yn ystod Gwanwyn/Haf 2025. Fodd bynnag, efallai y penderfynir bod rhai cleifion a gyfeirir am archwiliadau hidlo cyfeiriadau yn gymwys ar gyfer monitro parhaus mewn lleoliadau Gofal Sylfaenol, yn enwedig o dan y gwasanaethau Retina Meddygol.

Mae'r graff isod yn rhoi manylion ynglŷn â nifer y cleifion a welwyd ar gyfer pob gwasanaeth o dan WGOS 4 a chanlyniad yr archwiliadau hynny;




Ers mis Tachwedd 2024, mae WGOS 4 wedi atal cyfanswm o 278 o gyfeiriadau Gofal Eilaidd. Yn ystod 2024/25, archwiliodd y Bwrdd Iechyd sampl o gyfeiriadau Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbyty (HES), ac ers hynny mae wedi adolygu holl gyfeiriadau Retina Meddygol WGOS 4 i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at wasanaethau drwy’r llwybrau priodol.

Er mwyn cefnogi rhoi'r gwasanaethau monitro WGOS 4 ar waith, mae'r Bwrdd Iechyd yn y broses o benodi o leiaf ddau Optometrydd â chymwysterau uwch i adolygu'r cyfeiriadau HES presennol ac asesu eu cymhwysedd ar gyfer eu gweld mewn Gofal Sylfaenol. Bydd staff gweinyddol hefyd yn cael eu penodi, ynghyd ag Optometryddion, i gyflawni'r holl ddyletswyddau gweinyddol sy'n ymwneud â rhyddhau cleifion.

Yn unol â chynlluniau gweithredu WGOS 4, daeth gwasanaeth y Ganolfan Triniaethau Diagnostig Offthalmig a lansiwyd yn 2016 i ben ar 31 Mawrth 2025. Roedd 5 practis yn darparu'r gwasanaeth hwn yng Ngwent, a throsglwyddwyd pob un ohonynt i WGOS 4. Bu’r Bwrdd Iechyd yn gweithio’n agos gyda’r darparwyr drwy gydol y flwyddyn i sicrhau y byddai'r ddarpariaeth yn cael ei throsglwyddo'n llwyddiannus.


## WGOS 5

Mae WGOS 5 yn caniatáu ymarferwyr sydd â chymhwyster Rhagnodi Annibynnol i reoli cyflyrau penodol mewn lleoliadau gofal sylfaenol yn dilyn

cyfeiriad gan ymarferydd WGOS neu ar ôl eu rhyddhau o Wasanaethau Llygaid mewn Ysbyty.

Lansiwyd gwasanaethau brys WGOS 5 yn y Bwrdd Iechyd ar 27 Tachwedd 2023. Cafwyd diweddariad i lawlyfr clinigol WGOS 5 yn 2024, i gynnwys elfen rhyddhau'r Gwasanaeth Llygaid mewn Ysbyty o'r gwasanaeth. Lansiwyd y rhan hon o'r gwasanaeth ar 6 Chwefror 2025.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion ynglŷn â nifer y cleifion a welwyd o dan WGOS 5 rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025.




Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal ymweliadau practis â holl ddarparwyr WGOS 5 yn ystod 2024/25 fel rhan o'i broses fonitro barhaus. Adroddwyd bod cleifion yn cael eu gweld o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt, yn unol â llawlyfr clinigol WGOS 5.

## 4. Darparu Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru a Chynlluniau Gwella Gwasanaethau

Ers i Went ddod yn Rhanbarth Marmot, mae rhwydwaith o randdeiliaid lleol wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag annhegwch trwy weithredu ar benderfynyddion cymdeithasol iechyd - yr amodau cymdeithasol ac economaidd sy'n llywio ein hiechyd. Mae dod yn Rhanbarth Marmot yn arwydd o fwriad ar y cyd i gydweithio i wella tegwch ar draws Gwent, a gwella bywydau ein holl gymunedau, yn unol ag egwyddorion Marmot.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi adolygu gwasanaethau ac unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth o wasanaethau drwy gydol 2024/25, ac mae hyn wedi'i ffurfioli yn yr Asesiad o Anghenion Iechyd y Llygaid. Wrth symud ymlaen,

bydd gwybodaeth o’r Asesiad o Anghenion Iechyd y Llygaid, a’r pecyn cymorth gweithlu a gyflwynwyd gan bractisau fel rhan o’r ymarfer Ansawdd ar gyfer Optometreg yn llywio cynllunio yn y dyfodol, gan roi ystyriaeth i’r ardaloedd clwstwr hynny sydd â’r anghenion mwyaf.

Mae’r Bwrdd Iechyd yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod gwasanaethau WGOS yn cael eu darparu’n briodol a’u bod yn deg â phoblogaeth Gwent.

## 5. Adroddiad Ariannol

Mae'r tabl isod yn dangos y rhagolwg ariannol ar gyfer 2024/25 mewn perthynas â WGOS 2-5. Nid yw WGOS 1 wedi'i gyfyngu o ran arian parod ac felly nid yw wedi'i gynnwys.

| COST AREA | 24/25 FORECAST COSTS £ |
|---|---|
| WGOS 2 | 3,739,328 |
| WGOS 3 | 191,404 |
| WGOS 4 | 144,495 |
| WGOS 5 | 601,818 |
| **TOTAL** | **4,677,045** |

***Ar adeg cyhoeddi, nid oedd y ffigurau ar gyfer 2024/25 wedi’u cwblhau*

Mae’r Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro patrymau hawlio a rhagnodi yn fisol ac yn chwarterol, gan gysylltu â chydweithwyr Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a’r proffesiwn lle bo angen.

Bydd trafodaethau cyllidebol parhaus yn faes allweddol ar gyfer cyfarfod Bwrdd Cydweithredol Gofal Llygaid y Bwrdd Iechyd.

## 6. Cyfathrebu Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu mewn perthynas â WGOS, mewn cydweithrediad â Gofal Eilaidd. Mae'r manylion isod;

- 2 x digwyddiad ymgysylltu gyda'r Rhagnodwyr Annibynnol
- 1 x digwyddiad ymgysylltu gyda'r ymarferwyr nad ydynt yn WGOS 4

- 1 x digwyddiad ymgysylltu ag ymarferwyr Glawcoma WGOS 4, dan arweiniad cydweithwyr Gofal Eilaidd
- 1 x digwyddiad ymgysylltu gyda 4 ymarferydd Retina Meddygol WGOS, dan arweiniad cydweithwyr Gofal Eilaidd

Mae nifer dda o'r proffesiwn wedi mynychu’r digwyddiadau hyn ac maent wedi rhoi cyfle i bawb roi adborth i sicrhau y gall gwasanaethau barhau i esblygu trwy fwy o gydweithio ac integreiddio.

Mae cylchlythyr chwarterol, sy'n cynnwys diweddariadau allweddol, yn parhau i gael ei ddosbarthu i'r proffesiwn. Mae gwybodaeth sy'n berthnasol i wasanaethau WGOS yn cael ei chynnal ar wefan Optometreg Cymru gan gynnwys rotâu argaeledd lleol, llwybrau cyfeirio a thempledi.

Mae Bwrdd Cydweithredol Gofal Llygaid y Bwrdd Iechyd wedi’i ailsefydlu ac yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, ochr yn ochr â’r Gweithgor Gofal Llygaid.

Sefydlwyd grŵp Pwyllgor Optegol Rhanbarth De-ddwyrain Cymru rhwng Byrddau Iechyd Aneurin Bevan, Caerdydd a’r Fro a Chwm Taf ac mae’n parhau i gyfarfod bob dau fis. Mae'r grŵp hwn yn cydweithio i roi gwasanaethau Optometreg ar waith. Nid yw'r cyfarfod hwn wedi disodli cyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Optometreg lleol.

Mae’r Tîm Cyfathrebu yn parhau i ddiweddaru gwefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan: <https://abuhb.nhs.wales/hospitals/gps-dentists-opticians-ncns/optician/>

Mae’r Bwrdd Iechyd yn ymgysylltu’n frwd â’r holl randdeiliaid ac ym mis Mawrth 2025, cynhaliwyd digwyddiad Optometreg Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru a arweiniwyd gan Lywodraeth Cymru, ac a fynychwyd gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru a’r Arweinwyr Clinigol Cenedlaethol.

Bydd y Bwrdd Iechyd yn parhau i ymgysylltu â'r proffesiwn gyda digwyddiadau ymgysylltu pellach, sesiynau Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac ymweliadau â phractisau. Bydd cydnabod yr effaith y mae darparu gwasanaethau Optometreg newydd yn ei chael ar gleifion, cyfathrebu â chleifion ac ymgysylltu â’r trydydd sector hefyd yn ffocws allweddol wrth symud ymlaen.

## 7. Casgliad

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i roi gwasanaethau WGOS ar waith yng Ngwent, yn unol â Rheoliadau'r GIG (Gwasanaethau Offthalmig) (Cymru) 2023 a llawlyfrau clinigol ategol Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol Cymru. Bydd yr Asesiad o Anghenion

Iechyd y Llygaid a gyhoeddwyd yn ddiweddar ochr yn ochr â'r gwaith parhaus o fonitro gwasanaethau yn gwreiddio gwasanaethau ymhellach, ac yn llywio'r gwaith o gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol. Bydd hyn, ynghyd â'r ymroddiad parhaus i weithio ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol, yn sicrhau bod WGOS yn effeithiol a bod tegwch o ran gwasanaethau ledled Gwent.